DATGANIAD I'R WASG 10 MAI 2023

**CYMRU YN LANSIO'R PROSIECT PROFI A THRIN CYNTAF LEDLED Y WLAD AR GYFER Y CLAFR**

Mae Cymru'n arwain y ffordd ym maes iechyd anifeiliaid wrth lansio Gwaredu Scab heddiw (*Mai 10, 2023*) – prosiect newydd i frwydro yn erbyn y clafr.

Yn rhaglen genedlaethol i ddileu'r clafr yng Nghymru sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a'i harwain gan Goleg Sir Gâr, Gwaredu Scab yw'r prosiect profi a thrin cyntaf o'i fath ledled y wlad. Mae'n rhad ac am ddim i ffermwyr defaid ledled Cymru.

Mae'r clafr yn cael ei achosi gan widdonyn arthropod parasitig (*Psoroptes ovis*), ac mae'n glefyd sy'n gallu achosi problemau lles sylweddol ymhlith diadelloedd.
Yn hynod heintus ac yn hawdd ei drosglwyddo rhwng defaid, mae arwyddion clinigol yn cynnwys cosi, colli gwlân, briwiau ar y croen, colli pwysau a hyd yn oed marwolaeth.

Dywedodd John Griffiths, Rheolwr Rhaglen Gwaredu Scab,"Nod Gwaredu Scab yw dangos effeithlonrwydd contractwyr dipio defaid symudol i drin niferoedd mawr o ddefaid wedi'u heintio yn ddiogel. Po hiraf y mae'r clafr yn aros ar y fferm, y mwyaf yw'r siawns y bydd yn trosglwyddo i ddefaid eraill a daliadau eraill, felly byddem yn annog ffermwyr sy'n amau bod ganddynt achos i gysylltu â'n tîm."

Fodd bynnag, nid yw diagnosis yn bosibl ar arwyddion gweledol yn unig, oherwydd gall achosion cynnar gael eu camgymryd am barasitiaid croen eraill fel llau neu gynrhon. Felly, caiff y clafr ei ddiagnosio naill ai trwy grafu croen neu brofion gwaed gwrthgyrff a wneir gan filfeddyg.

Dywedodd Dr Neil Paton, Cyfarwyddwr Technegol Milfeddygol Gwaredu Scab, "Bydd cyfranogiad milfeddygol yn allweddol nid yn unig i wneud diagnosis cywir o'r clafr ond hefyd wrth gynghori ffermwyr ar sut i amddiffyn eu hunain rhag y clafr yn y dyfodol. Trwy gynghori ffermwyr ar ddiagnosis cywir ac atal bydd iechyd a lles y ddiadell genedlaethol yn cael eu hamddiffyn."

Ers y 1970au, mae achosion o’r clafr wedi cynyddu’n gyflym – yn bennaf oherwydd mewnforio defaid a diffyg cwarantîn iawn – ac mae’r clefyd bellach yn endemig yng Nghymru. Mae’r data’n awgrymu bod diadelloedd Cymru a’r rhai ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr wedi’u heintio’n drwm, gyda thueddiad cyffredinol o gynyddu.
Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo £1.5 miliwn bob blwyddyn, am o leiaf dwy flynedd, i fynd i’r afael â’r clafr. Mae Gwaredu Scab yn rhaglen a ariennir 100% sy'n cynnig gwasanaeth cyflawn o brofi i drin heb unrhyw gost i ffermwyr.

Darperir y driniaeth gan brosiect Gwaredu Scab trwy ddipio defaid mewn dip Organoffosffad (OP) mewn amgylchedd a reolir yn ofalus gan gontractwyr dipio symudol.

Bydd yr holl ddefaid mewn diadell heintiedig yn cael eu trin, oherwydd gall un anifail heb ei drin ailgychwyn yr haint. Bydd y driniaeth yn digwydd o fewn cyfnod penodedig yn dilyn diagnosis positif, ac ar ôl ei gwblhau, bydd y defaid yn cael eu hamddiffyn rhag cael eu hail-heintio â’r clafr am hyd at 60 diwrnod.

Dim ond contractwyr dipio symudol cymwysedig mewn PPE llawn fydd yn gwneud dipio er mwyn diogelu iechyd y rhai sy’n dipio, ffermwyr a'r amgylchedd, bydd Gwaredu Scab yn gweithio gyda chontractwyr dipio symudol fel y gallant ennill y safonau cymhwyster uchaf. Bydd dip wedi’i ddefnyddio yn cael ei waredu mewn gweithfeydd trin cemegol heb unrhyw gost i ffermwyr.

Fel mater lles anifeiliaid, mae ffermwyr yn rhwym yn gyfreithiol i drin defaid yr effeithir arnynt unwaith y bydd y clafr yn cael ei ganfod.
Nid yw cymryd rhan yn Gwaredu Scab yn orfodol, ond mae ffermwyr sy’n amau bod achosion o’r clafr yn eu diadell yn cael eu hannog yn gryf i gysylltu â thîm Gwaredu Scab i gael prawf ar eu defaid.

Unwaith y bydd fferm wedi adrodd ei hachos, bydd swyddog technegol Gwaredu Scab yn ymweld i gydlynu'r broses brofi ac, os bydd angen, yn mynd at y ffermydd cyfagos i leihau lledaeniad posibl y clefyd.

Dywedodd Lesley Griffiths, y Gweinidog dros Faterion Gwledig: “Y Clafr yw un o'r prif beryglon clefydau i'r diwydiant defaid yng Nghymru.

“Rwy'n falch bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r prosiect hwn i helpu'r diwydiant defaid, a milfeddygon defaid, i fynd i'r afael â'r clefyd difrifol hwn a'i ddileu.

“Bydd y gwaith sy'n digwydd yn helpu i ddiogelu iechyd a lles defaid yng Nghymru ac yn sicrhau manteision economaidd sylweddol i'r sector. Mae hyn hefyd yn rhoi cyfle pwysig i'r diwydiant roi'r mesurau angenrheidiol ar waith i atal y clafr rhag lledaenu rhwng diadelloedd.”

**Diwedd.**

**<u>NODIADAU I OLYGYDDION</u>**

**CAPSIYNAU LLUN:**

Tîm y raglen Gwaredu Scab sydd newydd ei lansio (yn y llun).
*Yn y llun o'r chwith i'r dde*: Dewi Hughes (Rheolwr Gwasanaethau Iechyd Anifeiliaid - Menter a Busnes), Angharad Thomas (Arweinydd Marchnata a Chyfathrebu), Lesley Griffith (Swyddog Technegol Gwaredu Scab), John Griffiths (Rheolwr Rhaglen Gwaredu Scab), and Neil Paton (Cyfarwyddwr Technegol Milfeddygol Gwaredu Scab).

**I gael rhagor o wybodaeth am Gwaredu Scab, cysylltwch â:**
gwareduscab@colegsirgar.ac.uk neu ffoniwch 01554 748576.

colegsirgâr

RVC Royal Veterinary College University of London

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government